

Atodiad 1 – Disgwyliadau Cyflawni Allweddol ar gyfer 2026-27

Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2026-29	Disgwyliadau Cyflawni Gweinidogol ar gyfer 2026-27 (lle y bo'n berthnasol)
Mynediad Amserol at Ofal	- Sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn aros dros 45 munud cyn cael eu trosglwyddo o ambiwlansys. - Sicrhau nad oes unrhyw gleifion yn treulio 12 awr neu fwy ym mhob cyfleuster gofal mewn argyfwng mawr a bach o adeg cyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. - Dim cleifion yn aros mwy na 104 wythnos i gael eu hatgyfeirio am driniaeth. - Nifer y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos am brawf diagnostig penodedig – targed o sero. - Byrddau iechyd i gyflawni targed y llwybr lle'r amheuir canser, sef 75%, drwy roi'r llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar waith, wrth leihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros mwy na 62 o ddiwrnodau erbyn diwedd mis Mawrth 2027.
Iechyd y Boblogaeth ac Atal	- Cynyddu cyfran y plant yng Nghymru sydd o bwysau iach drwy atal y cynnydd mewn lefelau gorbwysau a gordewdra, a chyfrannu at ostyngiad o flwyddyn i flwyddyn ynddynt, fel y'u mesurir ac a adroddir arnynt drwy'r Rhaglen Mesur Plant Genedlaethol, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf difreintiedig. - Lleihau'r annhegwch yn y defnydd o wasanaethau yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig o ran atal afiechyd, yn enwedig mewn perthynas â brechu, sgrinio ac atal diabetes a darparu gofal ar ei gyfer.

	• O leiaf 90% o unigolion a gaiff eu nodi drwy Adnodd Eiddilwch Archwilio+ (neu beth bynnag sy'n ei ddisodli) i gael gofal rhagweithiol yn unol â'u cynlluniau gofal y cytunwyd arnynt. • Cynnydd yng nghanran y cleifion (12 oed a throsodd) â diabetes a gafodd yr wyth proses gofal a argymhellir gan NICE.
Cymuned trwy Ddylunio	• Sicrhau tuedd o leihad dros 12 mis yn nifer y bobl sy'n wynebu oedi yn yr ysbyty a chyfanswm y dyddiau o oedi i'r cleifion hyn, yn ôl mesur y dangosfwrdd Llwybrau Gofal Gohiriedig. • Cynnydd yn y capasiti nyrsio cymunedol a nyrsio gofal lliniarol arbenigol ar benwythnosau i'r lefelau gofynnol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2024/25 o leiaf, ac yn uwch na hynny lle bo modd. (Caiff y gofynion a'r disgwyliadau cenedlaethol eu nodi gan Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Cymuned trwy Ddylunio).
Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl	• Rhoi Cymorth Iechyd Meddwl Mynediad Agored ar waith a'i werthuso erbyn mis Mawrth 2027. • Gwellu diogelwch mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Eilaidd (a gaiff ei fesur drwy fatrics diogelwch y cytunwyd arno ar gyfer Iechyd Meddwl a PROM ReQol) erbyn mis Mawrth 2027. • Gwellu Iechyd Corfforol Pobl â phroblemau Iechyd Meddwl hirdymor drwy gynnal adolygiadau marwolaeth a rhoi cynlluniau gwellu ar waith yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd erbyn mis Mawrth 2027.

Iechyd Menywod	• Ehangu model yr Hwb Iechyd Menywod ymhellach yn ardal pob bwrdd iechyd erbyn mis Mawrth 2027 (yn gyson â'r Cynllun Iechyd Menywod). • Gwella ansawdd ein gwasanaethau mamolaeth drwy leihau cyfraddau marwolaeth amenedigol.
Ansawdd a Diogelwch	• Tuedd ar i lawr yng nghyfradd dreigl gyfartalog fras marwolaethau dros 12 mis wrth gynnal cyfradd wastad ar gyfer aildderbyn cleifion dros 7 diwrnod. • Nifer y diwrnodau o ofal diogel a ddarparwyd ers y digwyddiad "byth" diwethaf, i'w fonitro gan ddefnyddio siart-T SPC. • Canran y cwynion a gafodd eu datrys yn gynnar – targed o 40% erbyn mis Mawrth 2027. • Rhaid i'r gwasanaeth codio clinigol sicrhau bod o leiaf 95% o gyfnodau achosion dydd a chleifion mewnol yn cael eu codio'n llawn o fewn un mis adrodd i ryddhau'r claf, yn unol â mesurau cyflawni Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rhaid cywiro 90% o bob gwall codio a nodir o fewn 35 diwrnod i'w nodi, gan sicrhau y gwneir gwelliannau amserol a chywir i ansawdd data ym mhob bwrdd iechyd. Rhaid bod ffocws ar ansawdd codio gyda phwyslais ar benodolrwydd, a chofnodi cydafiachedd a ddangosir drwy gynnydd o 10% mewn mynegai dyfnder o flwyddyn i flwyddyn.